# LDIF

Cronfa Arloesi Anableddau Dysgu

# Pecyn Cymorth



**Mynegai**

**Croeso i'r Pecyn Cymorth**

**Cefndir**

**Cam 1: Y Dull Partneriaeth – pwy yw pwy**

**Cam 2: Y Cydrannau LDIF**

**Cam 3: Dylunio Pecyn Cais LDIF**

**Cam 4: Y Broses Ymgeisio**

**Cam 5: Proses Asesu LDIF**

**Cam 6: Y Broses Asesu**

- **Panel Llunio Rhestr Fer**
- **Prif Banel**

**Adborth am y Broses Asesu**

**Cam 7: Y Broses Fonitro a Gwerthuso**

- **Adroddiad Terfynol y Tîm Delfrydol**

**Cam 8: Pwyso a mesur – myfyrdodau ar y broses LDIF**

**Cydnabyddiaeth**

**Atodiad**

**Croeso i Becyn Cymorth LDIF**

Mae Pecyn Cymorth Cronfa Arloesedd Anableddau Dysgu yn ganllaw cam wrth gam i raglen ariannu LDIF a arweinir gan bobl ag anableddau dysgu a/neu bobl niwroamrywiol.

Mae'n olrhain y camau cydgynhyrchu a alluogodd grwpiau ar draws gorllewin Cymru i wneud cais am gyllid a ysgogodd syniadau newydd ar gyfer gweithgareddau. Darparodd y prosiectau a ddeilliodd o hynny gyfleoedd i gymdeithasu, dysgu a rhoi cynnig ar fentrau cwbl newydd, yn amrywio o wneud ffilmiau i gabaret.

Yn ogystal â disgrifio camau y dull gweithredu arloesol hwn, mae'r Pecyn Cymorth yn cynnig cymorth ymarferol, gan gynnwys cyngor wrth ddysgu, problemau i'w hosgoi ac Atodiad terfynol o ddolenni i dempledi a gwybodaeth ddefnyddiol.

Mae'n ddogfen waith y mae modd ei hadolygu a'i datblygu wrth i eraill dreialu'r dull gweithredu hwn.



## Cronfa

## Arloesi Anableddau Dysgu

### Cefndir

Ysgogwyd Cronfa Arloesi Anableddau Dysgu (LDIF) gan Bartneriaeth Rhanbarthol Gwella Bywydau (RILP), partneriaeth sy'n cynrychioli awdurdodau lleol, y bwrdd iechyd a phobl sydd ag anableddau dysgu a/neu bobl niwrowahanol yn Sir Benfro, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin.

Dan arweiniad Tîm Delfrydol, gyda chymorth Pobl yn Gyntaf Sir Benfro a Phobl yn Gyntaf Sir Gaerfyrddin, mae wedi cael ei llunio, ei chynllunio a'i hasesu gan bobl sydd ag anableddau dysgu.

Roedd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, dan oruchwyliaeth Partneriaeth Gofal Canolbarth Cymru (WWCP) yn golygu ei bod wedi cael ei chydgynhyrchu gan sefydliadau profiadol yn unol ag egwyddorion a nodwyd yng nghrynodeb Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae hwn yn ffafrio dull gweithredu sy'n 'canolbwyntio ar yr unigolyn' er mwyn sicrhau bod gan bobl reolaeth dros y cymorth y mae ei angen arnynt a'u bod yn gallu troi at wybodaeth yn hawdd.

Dilynwyd hyn gan LDIF, ynghyd â phrofiad a sicrhawyd trwy gyfrwng 'Cyflwynwch Eich Prosiect' yn 2019.  Roedd y peilot hwn wedi annog grwpiau o bobl sydd ag anableddau dysgu i 'feddwl mewn ffordd wreiddiol', gan ddatblygu gweithgareddau hamdden a dysgu sy'n addas iddyn nhw, yn hytrach na chyd-fynd gydag amseroedd a syniadau gofal dydd yr awdurdod lleol.

Roedd y prosiectau a 'gyflwynwyd' gan grwpiau o bobl oedd ag anableddau dysgu i banel o bobl oedd ag anableddau dysgu yn cynnwys, er enghraifft, 'Tyrd i Fwyta gyda Mi', a oedd yn cyfuno sgiliau coginio a chyfle i gymdeithasu.  Roedd y cyfranogwyr wedi mwynhau'r profiad, ac roedd yn wahanol iawn i'r dull gweithredu cyllido arferol 'o'r brig i lawr'.

Pan ddaeth cyllid ar gael i redeg y Gronfa Arloesi Anableddau Dysgu, roedd y profiad cadarnhaol hwn wedi cymell y partneriaid dan sylw i archwilio'r dull gweithredu hwn ymhellach.

**Cam 1: Y Dull Partneriaeth – pwy yw pwy**

Mae **Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru** (WWCP) yn un o blith saith partneriaeth strategol ar draws Cymru sy'n goruchwylio'r gwaith o gyflawni agenda Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy gan sicrhau y cedwir at Ddeddf 2014. Mae'n cysylltu gyda byrddau gwasanaethau cyhoeddus a diogelu ac asiantaethau gofal eraill.

Cafwyd cyllid ar gyfer y Bartneriaeth – ac ar gyfer Cronfa Arloesi Anableddau Dysgu – gan Gronfa Gofal Integredig (ICF) Llywodraeth Cymru.

Rheolwyd Cronfa Arloesi Anableddau Dysgu trwy gyfrwng **Partneriaeth Rhanbarthol Gwella Bywydau** (RILP) a gaiff ei chyd-gadeirio gan gynrychiolwyr rhanbarthol o'r 'Tîm Delfrydol', gyda chymorth **Pobl yn Gyntaf Sir Benfro, Pobl yn Gyntaf Sir Gaerfyrddin** ac **Ein Llais Ein Dewis.**

Mae **Pobl yn Gyntaf Sir Benfro (PPF)** yn elusen annibynnol, sy'n cael ei rhedeg gan – ac ar gyfer – oedolion sydd ag anableddau dysgu a/neu bobl niwrowahanol, gyda chymorth ymarferwyr profiadol. Caiff ei hadolygu bob dwy flynedd ac mae ei maniffesto yn un sy'n datblygu sgiliau, cydnerthedd ac annibyniaeth.

PPF

Mae **Pobl yn Gyntaf Sir Gaerfyrddin (CPF)** yn asiantaeth eiriolaeth a hyfforddiant a arweinir gan ei haelodau ac sy'n canolbwyntio ar ei haelodau. Mae'r holl aelodau yn oedolion sydd ag anabledd dysgu, anhawster dysgu a/neu niwrowahaniaeth. Mae'r Aelodau yn ganolog i'r busnes ac fe'u hystyrir yn 'arbenigwyr yn ôl eu profiad'. Ethos yr asiantaeth yw cydraddoldeb, amrywiaeth a hyrwyddo hawliau sifil. CPF

Mae **Ein Llais Ein Dewis (**OVOC) yn grŵp hunan-eiriolaeth a sefydlwyd yng Ngheredigion ar gyfer pobl sydd ag anableddau dysgu. Mae'n sefydliad a arweinir gan ei aelodau. Tudalen Facebook

Gyda chymorth PPF, CPF ac OVOC, mae'r **Tîm Delfrydol** yn grŵp o bobl sydd ag anableddau dysgu a/neu bobl niwrowahanol o Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion. Maent yn teimlo'n angerddol ynghylch sicrhau bod llais gan bobl sydd ag anableddau dysgu a'u bod yn cael eu

cynnwys yn ystod cyfarfodydd lle y gwneir penderfyniadau gyda sefydliadau partner.

Mae'r Tîm Delfrydol yn rhoi adborth a gwerthusiad i Bartneriaeth Rhanbarthol Gwella Bywydau, gan gwblhau'r cylch trwy gael gwir ddylanwad ar benderfyniadau a chynlluniau.

Arweiniwyd y gwaith o weinyddu Cronfa Arloesi Anableddau Dysgu gan **Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Sir Benfro** PAVS yn gweithio gyda'i sefydliadau rhanbarthol cyfatebol:  CAVS (Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin) CAVS a CAVO (Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion) CAVO

## Cam 2: Y Cydrannau LDIF

## Y Gronfa Arloesedd Anableddau Dysgu - ffeithiau a ffigurau

Roedd LDIF yn fenter cyd-gynhyrchu rhwng asiantaethau partner a'r bobl y maent yn eu cefnogi a oedd yn dilyn yr egwyddorion a nodir yn Siarter Anabledd Dysgu Gorllewin Cymru https://www.ldcharter.com

- Darparodd grantiau o hyd at £10,000 yn ystod Rownd 1 ac £20,000 yn ystod Rownd 2 ar gyfer costau refeniw a chanran fach o gyllid cyfalaf ar gyfer pobl sydd ag anableddau dysgu a/neu bobl niwrowahanol, i gynllunio gweithgareddau ac amseriadau sydd fwyaf addas i'w ffyrdd o fyw.
- Dosbarthwyd cyfanswm o £176,529.  Gweler yr Atodiad 'Prosiectau a Gefnogir'
- Nid oedd gofyn cael cyllid cyfatebol, ond roedd yn rhaid i ymgeiswyr gyflwyno ffilm a oedd yn cynorthwyo eu prosiect ar gyfer Rownd 1 a bod yno i gyflwyno ar gyfer Rownd 2, gan gyd-fynd â'r Siarter bob tro.
- Roedd wedi annog deialog gyda'r asiantaethau a oedd yn cynorthwyo, gan weithio i fodloni disgwyliadau cyfranogwyr o'r Siarter Anableddau Dysgu.
- Anogodd y broses o gynllunio prosiectau arloesol y byddai modd eu 'profi' yn ystod y cyfnod grant pan oedd cymorth ar gael.

- Byddai modd i'r rhai a aeth yn dda wneud cais am gyllid dan Rownd 2 hefyd, lle y gallent ddatblygu eu prosiectau ymhellach dros flwyddyn.
- Ni chynlluniwyd y Gronfa i ychwanegu at weithgarwch a oedd yn bodoli eisoes neu i leddfu'r pwysau ar gyllideb gwasanaethau craidd.

Hyrwyddodd LDIF agwedd 'gallaf wneud' gyda grwpiau o bobl yn cydweithio ar nod a rennir. Roedd hyn wedi helpu i gynyddu sgiliau, capasiti a hyder i siapio eu bywydau eu hunain, fel y nodwyd yn y Siarter:

**'***Mwy o gyfleoedd mewn bywyd; mwy o ddewis; bod rhywun yn gwrando arnynt; cael eu trin fel oedolion; cael urddas a pharch'.*

Buont yn ymwneud â'r gwaith o baratoi ceisiadau, gan gyflwyno eu hachos gerbron Panel a chyflawni'r prosiectau.

Roedd y panel grantiau yn cynnwys aelodau'r Tîm Delfrydol. Buont yn goruchwylio dwy rownd (20 prosiect) gyda chymorth Pobl yn Gyntaf Sir Benfro, Pobl yn Gyntaf Sir Gaerfyrddin, Ein Llais Ein Dewis.

Gweinyddwyd y cyllid gan PAVS, a gadwodd gofnodion o gyfarfodydd, anfon llythyrau cynnig a monitro'r prosiectau, yn unol â chyfarwyddiadau'r Panel ac chan ddatblygu'r Pecyn Cymorth hwn.

**Pwynt dysgu:**

Rhaid i bob partner ymrwymo:

***** Y Cyłlidwr: rhaid iddynt gredu yn y broses, ymrwumo cyllid a deall y gallai gymryd mwy o amser


* Yr Ymgeisydd: pobl sydd ag anabledd dysgu yn cyflwyno yn eu geiriau eu hunain ac yn cyflawni'r prosiect .

* Yr Aseswr: panel hyfforddedig o aelodau'r Tîm Delfrydol (cyfatebol) i asesu ceisiadau,

**Siarter Anableddau Dysgu Gorllewin Cymru**

Defnyddiodd y Tîm Delfrydol Siarter Anableddau Dysgu Gorllewin Cymru i gyfrannu at bob cam o Gronfa Arloesi Anableddau Dysgu.

Lansiwyd y Siarter o'r newydd yn 2019, yn dilyn adolygiad gan y Tîm Delfrydol, ac mae'n rhan greiddiol o waith Anableddau Dysgu ar draws gorllewin Cymru.




Y Siarter yw'r cyntaf o'i math yng Nghymru. Ei phrif egwyddor: '*Mae pobl sydd ag anableddau dysgu yn dymuno cael yr un pethau ag y mae pawb arall yn dymuno eu cael.'*

Mae'n dwyn ynghyd cymorth, iechyd a pherthnasoedd. Mae'n ymwneud â chael bywyd cymdeithasol, teimlo boddhad a chael eich trin gydag urddas a pharch:

'*Helpwch ni i ddilyn ein breuddwydion; i hyfforddi staff sy'n gweithio gyda ni; i ddod i adnabod pobl sy'n ein cynorthwyo; i ymddiried ym mhobl i wneud yr hyn y maent yn ei ddweud ac i fanteisio ar eiriolaeth'.*

Mae aelodau'r Tîm Delfrydol yn hyrwyddo'r Siarter mewn cymunedau gyda'r nod o ymwreiddio'r dull gweithredu hwn mewn bywyd bob dydd. Llwyddodd y Siarter i sicrhau gwobr GIG Cymru am Rymuso ac mae'n

cael ei pharchu fel datblygiad arwyddocaol ym maes anableddau dysgu.

Gallwch gael gwybod mwy am y siarter yma: https://www.ldcharter.com

**Gair o gyngor:** Manteisiwch yn llawn ar unrhyw Siarter Anableddau Dysgu neu ddogfen gyfatebol yn eich ardal chi. Anogwch ddefnydd parhaus ohoni ac adolygiadau rheolaidd.

## Cam 3: Dylunio Pecyn Cais LDIF

Mae gan y partneriaid brofiad o gydweithio, felly roedd y gwaith o ddatblygu LDIF yn ymwneud â dysgu o brofiadau cydweithio blaenorol.

Roedd aelodau'r Tîm Delfrydol yn gyfarwydd gyda rhyngweithio gydag awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill, ond roedd LDIF yn gofyn am amrediad o sgiliau gan gynnwys darllen ac amgyffred gwybodaeth a deall manylion ariannol sylfaenol.




Gweithiont gyda PAVS i ddrafftio'r Canllawiau a'r Ffurflen Gais ac roeddent yn allweddol wrth nodi unrhyw beth amwys. Cyfieithwyd y dogfennau i ffurf Hawdd i'w Ddeall dwyieithog gan CIC Barod.

Mae hyn yn cyfuno brawddegau byr, heb jargon gyda delweddau syml, clir i helpu i egluro'r cynnwys.

Cytunwyd ar amserlen ar gyfer pob cam: roedd y dyddiad cau yn caniatáu i ymgeiswyr baratoi a chyflwyno'r cais, ynghyd â ffilm fer.

Mewn sesiwn Holi ac Ateb ar-lein a fynychwyd gan nifer dda o bobl, amlinellwyd y broses gan y Tîm Delfrydol, PPF a PAVS.

Roedd gan y broses hon o ddatblygu capasiti oblygiadau o ran amser a'r gost. Weithiau, roedd cyfarfodydd wedi cymryd mwy o amser, wrth weithio trwy wahanol safbwyntiau i sicrhau consensws, ond roedd hwn yn brofiad gwerthfawr i bawb dan sylw. Roedd datblygu deunyddiau Hawdd i'w Darllen a dwyieithog wedi costio mwy na deunyddiau confensiynol hefyd.

Roedd yr holl ffactorau hyn, sicrhau sefydliadau priodol i gyfieithu dogfennau i fersiwn Hawdd ei Ddeall, cynnwys amser ychwanegol a chynnig cymorth, yn dangos ymrwymiad y partneriaid a'u gwir ewyllys i wneud pethau mewn ffordd wahanol.

**Dysgu:**

* roedd comisiynu asiantaeth cymorth o'r trydydd sector (PAVS yn yr achos hwn) i weinyddu'r gronfa wedi gweithio'n dda, gan ei bod yn adnabod yr aelodau ac yn darparu cymorth da

* mae angen neilltuo amser i gyfieithu dogfennaeth i fersiwn Hawdd ei Ddeall, sy'n arwain at oblygiadau o ran y gost hefyd

* neilltuo amser ar gyfer elfen datblygu capasiti y cam paratoi, mae'n sicrhau dealltwriaeth well a cheisiadau gwell

* sicrhau bod amser digonol cyn dyddiad cau i ymgeiswyr baratoi eu ffilm, sicrhau bod help technegol ar gael – ond roedd y rhan fwyaf wedi defnyddio ffonau symudol.

* sicrhau caniatâd perthnasol i bobl sydd anableddau dysgu i gymryd rhan mewn ffilm – yn y Canllawiau ond mae'n well gwirio

* sicrhau dull hawdd a diogel i ymgeiswyr gyflwyno ffilmiau

.

**Cam 4: Y Broses Ymgeisio**

Lansiwyd LDIF gan y Tîm Delfrydol ym mis Awst 2021. Fe'i hyrwyddwyd trwy ymgyrch gref ar gyfryngau cymdeithasol a thrwy rwydweithiau'r partneriaid, gan gyrraedd sawl can grŵp ar draws y dair sir.

Roedd mis gan grwpiau i gyflwyno cais mewn ffurf Hawdd ei Ddeall, a gynorthwywyd gan ffilm fer a gynhyrchwyd gyda'r buddiolwyr posibl, a oedd wedi dwyn y prosiectau – a phobl – yn fyw. Roedd y terfyn amser cymharol byr hwn o ganlyniad i'r ffenestr er mwyn gwario'r grant, a byddai cyfranogwyr wedi cael cyfnod hwy i baratoi eu cyflwyniadau yn ddelfrydol.

Roedd defnyddio ffurf Hawdd ei Ddeall yn sicrhau bod pawb: ymgeiswyr, aseswyr a'r holl bartneriaid, yn cael yr un faint o wybodaeth yn unol â'r Siarter Anableddau Dysgu: 'sicrhau bod pethau yn hawdd i'w darllen a'u deall: ei gadw'n syml! Darganfod yr hyn sy'n gweithio i ni, rydym oll yn wahanol'.

Fodd bynnag, roedd ffurf Hawdd ei Ddeall yn fwy heriol i sefydliadau sy'n gwneud ceisiadau ariannol yn rheolaidd 'ar ran' eu defnyddwyr

gwasanaeth.  Mae'n cyfyngu ar jargon a hirwyntogrwydd, ac yn gofyn am y ffeithiau sylfaenol yn unig.

Ymatebodd PAVS i geisiadau am becynnau ymgeisio, gan gadw cofnod o sefydliadau at ddibenion monitro.  Rhoddodd PAVS, CAVS a CAVO gyngor ac arweiniad i ddarpar ymgeiswyr.

Hysbysebwyd sesiwn Holi ac Ateb ar-lein fel y gallai unrhyw un gyfeirio eu cwestiynau i'r rhai sy'n gweinyddu'r grant yn uniongyrchol.  Roedd hyn wedi helpu i ategu'r ffaith bod mwy o ryddid a dewis i bawb.

## Cam 5: Proses Asesu LDIF

Tynnwyd Panel asesu LDIF o blith aelodau'r Tîm Delfrydol a ymatebodd i alwad i bobl 'fynegi diddordeb', a dewiswyd dau yr un o'r dair sir.

Roedd yn rhaid iddynt ymrwymo i hyfforddiant a mynychu cyfarfodydd, neilltuo amser i ddarllen y ceisiadau ac eistedd yng nghyfarfodydd y Panel llunio Rhestr Fer a'r Panel llawn.

Gan gyd-fynd ag ethos RILP, y Tîm Delfrydol ac LDIF sef cael cyfranogiad ystyrlon, talwyd aelodau'r Panel hefyd, a oedd yn cynyddu eu hymdeimlad o gyfrifoldeb.

Darparodd Pobl yn Gyntaf Sir Benfro a PAVS hyfforddiant a oedd yn cynnwys rheolau sylfaenol ynghylch cyfrinachedd, cwrteisi a pharchu hawl ei gilydd i gael eu barn eu hunain.

Rhoddwyd sylw i bwysigrwydd bod yn ddiduedd, delio â gwrthdaro posibl rhwng buddiannau a rhoi'r un amser i bob ymgeisydd hefyd. Roedd cyllid yn elfen arall o'r hyfforddiant paratoadol hwn.

Weithiau, gall bod yn ymwybodol o wybodaeth ychwanegol helpu e.e. efallai y bydd gweithiwr cymorth yn ymwybodol o broblem rhwng aelod o'r Panel ac ymgeisydd, a allai wyro penderfyniad.  Mae aelodau'r Tîm Delfrydol yn 'gwisgo sawl het' yn eu cymuned, felly er mwyn sicrhau gwrandawiad teg i bawb, mae'n well bod yn effro i hyn.

Darparwyd hyfforddiant a chymorth ar gyfer yr agwedd dechnoleg hefyd. Roedd rhan fwyaf o'r aelodau panel yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn rheolaidd, ond cytunwyd ar ymddygiad safonol ynghylch amlygu cwestiynau, defnyddio'r swyddogaeth 'sgwrsio' ac ati.

Nid yn unig yr oedd y cyfarfodydd ar-lein yn cydymffurfio â chyfyngiadau Covid, ond roeddent yn galluogi pawb ar draws y dair sir i gymryd rhan mewn ffordd gyffyrddus hefyd.

Mae helpu ymgeiswyr gyda thechnoleg yn bwysig hefyd, gan bod rhai yn fwy medrus nag eraill wrth gyflwyno ffilmiau. Lluniwyd grŵp Facebook preifat er mwyn trosglwyddo'r ffilmiau yn ddiogel.

Roedd amseru yn bwysig hefyd yn unol â'r Siarter: 'Mae'n bwysig ein bod yn gallu siarad dros ein hunain a chael amser i feddwl ac ateb- peidiwch rhuthro!'

**Dysgu:**

*** dylech neilltuo amser digonol i hyfforddi aelodau'r Panel**

*** dylech sicrhau bod cyllideb i dalu aelodau'r Panel**

*** dylid cynnal 'ymarfer' er mwyn sicrhau bod aelodau'r Panel yn ymgyfarwyddo gyda sefyllfaoedd a allai godi**

*** dylid sicrhau bod pawb yn gyffyrddus gyda thechnoleg**

*** deall bod amser ychwanegol yn arwain at oblygiadau o ran y gost**

## Cam 6: Y Broses Asesu

Ar ôl cael ceisiadau, bydd PAVS yn anfon cydnabyddiaeth i ymgeiswyr a disgrifiad o'r broses asesu fel eu bod yn gwybod yr hyn i'w ddisgwyl.

Roedd cyfathrebu clir yn bwysig, gan bod yr ymgeiswyr yn bobl sydd ag anableddau dysgu a/neu'n bobl niwrowahanol hefyd. Ymatebodd PAVS i unrhyw ymholiadau ac roedd yn gallu cynnig cymorth neu sicrwydd yn ôl y gofyn.

Ar ôl i'r dyddiad cau fynd heibio, cynhaliodd PAVS archwiliadau er mwyn sicrhau bod grwpiau yn bodloni'r meini prawf sylfaenol er mwyn bod yn gymwys i gael grant e.e., roeddent yn meddu ar gyfansoddiad ac roedd ganddynt gyfrif banc.

Roedd angen i bob cais Hawdd ei Ddeall gael ei gyflwyno gyda ffilm fer a oedd yn amlinellu grŵp yr ymgeiswyr a'i gynnig yn Rownd 1 oherwydd cyfyngiadau Covid ac roedd y cyflwyniadau 'wyneb yn wyneb' dros Zoom yn Rownd 2.

**Gair o gyngor:** Os ydych yn trefnu cyfarfod panel 'wyneb yn wyneb', dylech sicrhau bod y lleoliad yn briodol gan bod rhai nodweddion e.e. goleuadau llachar, yn gallu bod yn annifyr i rai.

**<u>1: Panel llunio Rhestr Fer</u>**: anfonwyd ceisiadau at aelodau'r Panel ymlaen llaw, aethant ati i'w darllen a'u sgorio yn unol â matrics sgorio y cytunwyd arno, a gydgynhyrchwyd ar gyfer dealltwriaeth glir.

**Gair o gyngor:** dylech sicrhau bod digon o le ar y daflen sgorio – neu ddefnyddio symbolau: mae maint ac arddulliau ysgrifennu yn amrywio, felly mae'n bwysig ei wneud yn hawdd i bawb

Ar ôl darllen a sgorio'r ceisiadau ymlaen llaw, mynychodd yr aelodau y cyfarfod ar-lein er mwyn llunio Rhestr Fer. Gydag egwyliau lles, roedd wedi cymryd tair awr i ystyried 12 cais.

Roedd y dull gweithredu hamddenol hwn yn bwysig ar gyfer sicrhau cyfforddusrwydd ac roedd wedi helpu wrth ddeall rolau a chyfrifoldebau. Yn ogystal, roedd wedi galluogi'r gweinyddwyr i gynllunio amseriadau ar gyfer cyfarfod y prif Banel.

Roedd aelodau'r Panel yn hyderus wrth ofyn am eglurhad, gan dorri trwy'r jargon mewn ffordd effeithiol iawn. Nodont geisiadau a gyflwynwyd 'ar ran' yn hytrach na chan fuddiolwyr prosiect arfaethedig yn syth.

Ni chyrhaeddodd rhai ffilmiau mewn pryd oherwydd problemau technegol; cynigiwyd cymorth i'r ymgeiswyr hyn i gwblhau'r broses.

Gofynnwyd am eglurhad gan rai ymgeiswyr, estynnwyd gwahoddiad i eraill wneud cyflwyniadau ar-lein i'r Panel. Roedd yn rhaid i bob un ohonynt gyflwyno ffilm.

## <u>2: Cyfarfod y Panel:</u>

Er mwyn paratoi ar gyfer cyfarfodydd y Panel, cysylltodd PPF ag aelodau'r panel yn unigol er mwyn sicrhau bod ganddynt y ddolen, yr amseriadau a'u bod yn teimlo'n dda am y broses.

Mae'r dull gweithredu unigol, cyfathrebu clir a defnyddio'r cyfryngau mwyaf priodol, boed hynny dros y ffôn, neges e-bost neu neges destun,

yn bwysig.  Nid oes llwybrau union – ac unwaith eto, mae hyn yn arwain at oblygiadau o ran yr amser.

Cododd ymdeimlad o ddisgwyl rhywbeth cyn cyfarfod ar-lein y Panel, wrth archwilio'r drefn a'r dolenni fideo ar y funud olaf.  Estynnodd cynrychiolydd PPF groeso i bawb a nododd rai manylion ymarferol ynghylch amseru ac egwyliau lles.

Dywedwyd wrth un aelod Panel nad oedd wedi mynychu'r Panel llunio Rhestr Fer na fyddai modd iddi fynychu'r Panel llawn.  Roedd yn deall y penderfyniad pan esboniwyd bod hyn er mwyn sicrhau cydbwysedd.

Cychwynnodd cyfarfodydd y Panel, a gadeiriwyd gan aelod o'r Tîm Delfrydol, gyda nodyn i'w hatgoffa i ddatgelu unrhyw fuddiannau mewn perthynas â'r ceisiadau.

Yna, aseswyd y ceisiadau gan aelodau'r Panel, yr oedd rhai ohonynt wedi darparu gwybodaeth ychwanegol ac yr oedd ganddynt ffilm.

Aseswyd y ceisiadau yn ofalus gan ddefnyddio meini prawf LDIF yn unol â'r matrics sgorio:

- Arloesol:  dylai ddangos modelau cymorth dyfeisgar newydd ar gyfer pobl sydd ag anableddau dysgu a/neu bobl niwrowahanol
- Wedi cael ei gydgynhyrchu a'i gyd-ddarparu gyda phobl sydd ag anableddau dysgu a/neu bobl niwrowahanol
- Yn dangos buddion clir ac uniongyrchol i'r gymuned honno
- Yn barod i rannu dysgu
- Yn dangos gwerth am arian

Roedd gan aelodau'r Panel ddiddordeb brwd yn y prosiectau a gofynnont gwestiynau trylwyr i'r ymgeiswyr a ymddangosodd o'u blaen.

Nodont y gweithgarwch cynhyrchu ffilm medrus gan rai ymgeiswyr (adroddodd gweithwyr cymorth bod hyn wedi codi lefelau hyder).

Er ei bod wedi cymryd amser, cytunwyd bod yr agwedd ffilm yn werth chweil.  Roedd wedi sicrhau bod cymeriadau'r bobl dan sylw yn dod i'r amlwg ac roedd wedi eu galluogi i esbonio eu syniadau gydag ymrwymiad.  Insert film clip.

Er bod ffilm yn ofyniad ymgeisio ar gyfer Rownd 1, ar gyfer Rownd 2, roedd cyfyngiadau Covid wedi llacio a gwnaethpwyd cyflwyniadau grŵp i'r panel Asesu dros Zoom.

Yn gyffredinol, roedd yn ymddangos bod y broses ymgeisio yn eistedd yn haws gyda llai o grwpiau ffurfiol a oedd yn fwy cyfarwydd â siarad o blaid eu hunain. Felly, er nad ydynt yn gyfoethog o ran eu hadnoddau neu eu hasedau, roedd yr aelodau'n teimlo'n gryf ynghylch mynegi eu huchelgais ac roeddent wedi gwneud hynny gydag ymrwymiad.

Roedd ceisiadau a gyflwynwyd 'ar ran' defnyddwyr gwasanaeth yn fwy slic, ond roedd y Panel yn torri trwy'r jargon yn gyflym, gan ofyn am eglurder gan y rhai a oedd yn ymddangos yn bersonol.

Cynorthwyodd PPF a PAVS aelodau'r Tîm Delfrydol i sicrhau bod grwpiau yn atebol am arian cyhoeddus, gan gamu i mewn i hwyluso'r drafodaeth o bryd i'w gilydd.

Roedd yr awyrgylch yn broffesiynol ond yn gefnogol. Ar un adeg, atgoffwyd y Panel o'r gwahaniaeth rhwng 'braf ei gael' ac 'angen' o ran cais nad oedd yn bodloni meini prawf LDIF yn llawn.

Rhoddwyd amser ychwanegol i aelod arall o'r panel pan oedd yn teimlo, gan ei bod yn ddwyieithog, ei bod yn 'drysu' wrth wneud penderfyniadau o bryd i'w gilydd. Mewn cyferbyniad, roedd aelod arall yn meddwl mewn ffordd gynaliadwy, gan ofyn beth oedd ymgeisydd yn gobeithio y byddai'n digwydd ar ôl y 6 mis a fyddai'n cael ei ariannu, gan ddangos gwir ddealltwriaeth o'r broses.

Roedd hi'n cymryd amser i sicrhau eglurder am brosiect a gwneud penderfyniad ar sail y wybodaeth ychwanegol hon. Mewn un achos, gofynnodd aelodau'r Panel am ragor o wybodaeth mewn ffurf Hawdd ei Ddeall. Yna, gofynnont am eglurhad pellach, gan wneud penderfyniad trwy gyfrwng pleidlais yn y diwedd.

Roedd hi'n bwysig nad oedd penderfyniadau yn rhai tocynistaidd. Os oedd unrhyw amheuaeth, byddai'n rhaid i aelodau'r Panel fod yn barod i esbonio penderfyniad. Gallai hyn gymryd amser ond roedd yn sicrhau bod y penderfyniad wedi cael ei ystyried yn dda a'i fod yn ystyrlon.

Nid yn unig yr oedd aelodau'r Panel wedi dysgu mwy am y broses go iawn, ond roedd ymgeiswyr yn deall bod yn rhaid iddynt gadw at feini prawf y grant a chynnwys y buddiolwyr wrth wneud y cais.

**Canlyniadau:** Cyfarwyddwyd PAVS gan aelodau'r Panel i gysylltu ag Ymgeiswyr gyda'u penderfyniadau. Roedd y llythyr (Atodiad) yn cynnwys manylion y Wobr (swm, unrhyw amodau, amserlen) neu adborth ar ddiffyg llwyddiant. Cynigwyd cefnogaeth ac anogaeth i ymgeiswyr wneud cais eto yn y dyfodol.

### Adborth am broses y Panel Asesu gan Aelodau Panel

Roedd ymatebion aelodau'r Panel ynghylch y profiad o asesu'r ceisiadau yn amrywio.

Nododd un: '*roedd rhai yn glir iawn ond roedd eraill yn rhy gymhleth a bu'n rhaid i ni ofyn iddynt greu fideo newydd cyn i ni wneud penderfyniad terfynol.'*

Un sylw trawiadol arall: '*nid oedd yn ymddangos bod rhai prosiectau yn cadw mewn cof bod gan aelodau'r panel Anableddau Dysgu gan eu bod wedi defnyddio geiriau mawr ac esboniadau hirwyntog.'*

'*Mae gweld fideo yn gynrychiolaeth llawer gwell o'r unigolyn neu'r sefydliad sy'n siarad na darn o bapur!'*

Pan ofynnwyd a oeddent yn teimlo pryder ynghylch gorfod dewis pa brosiectau i'w hariannu, roedd aelodau'r Panel yn teimlo'n hyderus am eu penderfyniadau.

> *'Roeddem yn deg yn ein barn ac roeddem wedi cynorthwyo'r rhan fwyaf o brosiectau, gan gynnig dewisiadau amgen i rai yr oeddem yn anghytuno â nhw...meddyliom yn galed iawn ac roeddem wedi trafod pob dewis yn drylwyr.'*

Mae adborth yn ddefnyddiol hefyd ar gyfer dewis a pharatoi aelodau'r Panel yn y dyfodol:

'*Rydw i'n credu bod yn rhaid i ni fod yn fwy llym, ond yn deg, ac mae angen i bawb siarad, roedd gennym nifer dda o aelodau bwrdd tawel'*

*'roedd yn ymddangos bod gan ddau aelod o'r panel yr un farn trwy gydol y broses.'*

*Roedd rhai wedi dangos dealltwriaeth dda o gyd-destun y gronfa:*

'*Deuthum yn aelod o'r panel er mwyn helpu prosiectau sy'n cael eu rhedeg gan PwLD i gychwyn arni a gweld beth fyddent yn meddwl amdano. Roeddwn yn dymuno gweld hefyd a oedd yr holl brosiectau yn newydd ac yn gwneud gwahaniaeth yn y gymuned.'*

*'Roedd y system sgorio yn dda ac roedd wedi peri i'r panel feddwl am bob prosiect ar wahân, gan sicrhau bod pob prosiect yn cyd-fynd ag adran o'r Siarter'.*

Pan ofynnwyd am brofiad LDIF, dywedodd un aelod:

*'Nid ydw i fyth wedi teimlo fy mod yn cael fy nerbyn gymaint ac mae bod yn aelod o'r panel yn fy helpu i ddeall fy mhwysigrwydd*

**Dysgu am bwysigrwydd:**

* Eglurder ac osgoi jargon: defnyddio testun Hawdd ei Ddeall

* Clywed yn ogystal â gwrando

* Amynedd a chwrteisi: peri i rywun deimlo'n gartrefol

* Cael meddwl agored: gwerthfawrogi sgiliau ee technegol

* Osgoi tuedd: sut y caiff 'pobl sydd ag anableddau' eu trin

**Dilynwch y Siarter Anableddau Dysgu!**

**Cam 7: Y Broses Fonitro a Gwerthuso** Cynigiwyd cymorth i brosiectau llwyddiannus yn ystod y cyfnod cyllido ar gyfer rowndiau 1 a 2. Roedd neges gychwynnol a oedd yn holi 'sut ydych chi'n dod ymlaen' wedi ategu'r cymorth sydd ar gael i'r grwpiau. Fe'u hanogwyd i hyrwyddo eu prosiectau arloesol er mwyn amlygu gwerth y cyllid.

Roedd proses LDIF wedi helpu i godi ymwybyddiaeth o'r gwaith sy'n cael ei gyflawni gan grwpiau o bob maint ac mewn rhai achosion, roedd wedi eu helpu i gysylltu â'i gilydd. Dywedodd llefarydd ar ran The Tenby Project: '*Bu'r awyrgylch yn hyfryd, ac mae pobl o Hafal wedi ymuno â ni yn ystod y prynhawniau am y sgwrs, felly mae hynny wedi bod yn wych i bawb dan sylw!'*

Roedd y prosiectau yn amrywio o berfformiadau cabare i sesiynau codi pwysau pwrpasol, a dilynwyd eu cynnydd yn agos gan y panel. Dolen i'r Siarter - '*perthnasoedd a rhyw fel yr ydym yn dewis; i bobl ein croesawu a deall yr hyn y mae ei angen arnom pan fyddwn allan a chael rhagor o wybodaeth am yr hyn sy'n digwydd'.*

Cyfrannodd aelodau'r panel at gyfres o bodlediadau am ganlyniadau'r ffordd wahanol hon o weithio, a gynhaliwyd gan CIC Barod, sy'n cynorthwyo 'unrhyw un sy'n barod i newid a gwneud gwahaniaeth i'w bywydau eu hunain ac i fywydau eraill'. Gweler podlediadau Mae rhagor o wybodaeth am Barod ar gael **yma**

Ar ddiwedd y cyfnod cyllido ar gyfer Rownd 1, gofynnwyd i bob ymgeisydd lenwi ffurflen werthuso ac adroddiad cyllid, unwaith eto ar ffurf fersiwn Hawdd ei Ddeall. Casglwyd ac adolygwyd y rhain gan y Tîm Delfrydol.

**Enghreifftiau o adborth Ymgeiswyr:**

**Am broses LDIF:**

*'Rydym yn grŵp a arweinir gan ein haelodau a gallwn gynnwys ein haelodau yn y broses ymgeisio ac o ganlyniad, gallwn gynnig rhai sgiliau bywyd iddynt yr oeddent yn dymuno eu meithrin.'*

*'Rhoddodd ddewis i bobl am yr hyn yr oeddent yn dymuno ei wneud, pwy i'w gwahodd. Helpodd i ryngweithio gydag aelodau'r cyhoedd a helpu pobl. Rhoddodd gyfleoedd ar gyfer cymorth gan gymheiriaid i gymheiriaid.'*

*'Bu cyfle i'n cyfranogwyr roi cynnig ar bethau newydd fel sgiliau syrcas, creu gwisgoedd, dawns a cholur...i ddod ynghyd i wneud ffrindiau newydd a gweithio tuag at berfformiad mawr gyda'i gilydd.'*

'*roedd y llawenydd a gawsant trwy berfformio yn anfesuradwy. Roedd rhieni a chefnogwyr yn emosiynol iawn am yr hyn yr oedd y prosiect wedi'i olygu iddynt a sut yr oedd wedi meithrin eu hyder.'*

*'Roeddem ni a'r rhai sydd ag Anawsterau Dysgu wedi mwynhau creu ffilm. Fe'i defnyddiwyd ar gyfryngau cymdeithasol hefyd, lle y cafwyd ymateb aruthrol iddi, gan ddenu eraill at ein gwaith.'*

*‘Mae ein prosiect AD wedi cychwyn ac mae pawb wrth eu bodd ag ef! Mae’n un o’r prosiectau mwyaf gwerth chweil yr wyf i wedi bod ynghlwm ag ef yn ystod fy nghyfnod gyda’r grŵp i fod yn onest.  Mae mor arloesol a grymusol i bawb dan sylw!’*

**Am agweddau sy’n newid:**

*‘Dechreuom feddwl ein bod yn dymuno i oedolion sydd ag AD i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar sail gyfartal gydag aelodau eraill y gymuned, a chanfuom eu bod yn gwneud hyn a’u bod yn rhedeg y prosiect, yn gofalu am yr holl ymwelwyr, ac yn sicrhau bod yr ymwelwyr yn cael eu cynnwys mewn ffordd gyfartal.’*

**Am gyllid yn gyffredinol:**

‘*Mae angen rhoi mwy o ystyriaeth i grwpiau cymunedol nad oes ganddynt staff cyflogedig neu swyddfeydd sy’n cynnwys mynediad i gyfleusterau digidol.  Pan fo ymgeisydd yn grŵp cymunedol sy’n cael ei redeg gan wirfoddolwyr sydd ag anableddau dysgu, dylid darparu mwy o gymorth er mwyn sicrhau bod y grwpiau hyn yn gallu cyfranogi’n llawn yn y broses gyfan.  Efallai bod gan y grwpiau hyn rai syniadau gwych, ond nad ydynt yn gallu manteisio ar y cymorth i weithredu pethau.’*

**Dysgu:**

* mae’r amrywiadau yn sgiliau a gwybodaeth ymgeiswyr – a’u hadnoddau – yn awgrymu’r angen am fwy fyth o ddysgu a chymorth rhwng cymheiriaid ond mae angen cyllid pellach ar hyn


* dylid buddsoddi amser ac adnoddau yn y sefydliadau a arweinir gan aelodau sy’n ceisio ymateb i anghenion eu cyfranogwyr ac efallai y bydd gofyn iddynt gael mwy o ddeunyddiau, adnoddau neu hyfforddiant

* mae angen i’r grwpiau sydd ag adnoddau da gymryd ‘cam yn ôl’ a sicrhau eu bod wir yn gwrando ar anghenion eu cyfranogwyr a’u bod yn ceisio dysgu gan eu cymheiriaid

* dylid rhannu adborth cadarnhaol yn eang er mwyn hysbysu’r cyhoedd o bwysigrwydd – a gwerth cymdeithasol – dull gweithredu hollol integredig tuag at bob math o bethau mewn bywyd

## Adroddiad Terfynol y Tîm Delfrydol

Ym mis Mai 2022, bu’r Tîm Delfrydol, gyda chymorth PPF (*yn y llun isod*) yn adolygu adroddiadau monitro Rownd 1, gan baratoi adroddiad terfynol ar gyfer Partneriaeth Rhanbarthol Gwella Bywydau (RILP), gyda chymorth Pobl yn Gyntaf Sir Benfro a Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS).




## Detholiad o arsylwadau yn Adroddiad y Tîm Delfrydol:

*“Hoffwn weld [enghraifft] o’r arolygon yr oeddent wedi eu defnyddio gydag aelodau”*

*“Roeddent wedi gwneud yn dda iawn o ystyried yr arian a oedd ar gael”*

*“Hoffwn weld stori gan rywun sydd ag anableddau a sut brofiad y bu hwn iddynt, a’r hyn y gwnaethant ei sicrhau.”*

*“Bydd angen i chi ofyn i ni cyn i chi newid sut yr ydych yn gwario arian.”*

*“Roedd hyfforddiant yn y cais, ac ni soniwyd amdano yn y monitro. A oedd wedi digwydd?*

**Ynghylch prosiect cabare Gofal Celf:**

*“Mae pobl sydd ag anableddau yn dymuno gwneud yr un pethau â phawb arall.”*

*“Rhoddodd brofiad gwych i gyfranogwyr.”*

*“Gall y gymuned gyfan weld yr hyn y gall pobl sydd ag anableddau dysgu ei wneud.”*

*“Mae’n dangos bod ffyrdd eraill er mwyn i chi allu gwneud pethau.”*

***Siop Gymunedol Clynfyw***

*“Mae’n rhoi mwy o sgiliau i bobl, yn enwedig sgiliau cyfathrebu – ac yn eu tynnu o’u man cysurus ond i fan diogel”*

*“Mae’n dangos i bobl y maent ‘y tu allan i’n swigen ni’ yr hyn y gall pobl sydd ag anableddau dysgu ei wneud.”*

**Prosiect ffilm WOW**

*“Mae’n wych gweld pobl yn cael eu talu am eu gwaith ar hwn.”*

*“Mae wir yn cyfoethogi ac yn meithrin sgiliau.”*

*“Mae’n dangos gallu pobl i wneud pethau.”*

**Prosiect Mynediad Scolton**

Dywedodd aelod panel a oedd wedi ymweld â Scolton yn ddiweddar – parc hamdden a safle arddangos sy'n eiddo i'r awdurdod lleol: "*Roeddwn yn teimlo fy mod yn cael fy nghroesawu yno."*

*"Mae'n dangos bod pobl sydd ag anableddau dysgu yn gallu rhedeg pethau"*

*"Mae'n peri i bobl deimlo eu bod yn rhan o dîm."*

**Cam 8: Pwyso a mesur – myfyrdodau ar y broses LDIF**

Bu'r broses gyfan o ddosbarthu'r Gronfa Anableddau Dysgu yn arloesol, gan ddilyn dull gweithredu cydgynhyrchu. Mae hyn yn cymryd yn hirach ac mae'n costio mwy, ond yn anad dim, mae'n cynnig llais cyfartal i bawb dan sylw.

Mae'n sicrhau bod pobl wir yn dymuno cael y prosiectau a ariannir, felly dylent fod yn fwy effeithiol a chynaliadwy o'r herwydd. Mae gan aelodau'r grŵp fudd mewn sicrhau bod y prosiectau yn gweithio a helpu i sicrhau cyllid ar gyfer unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol.

Dangosodd yr ymgeiswyr ystod eang o gapasiti ac adnoddau. Roedd rhai yn teimlo bod angen cymorth arnynt gyda'r broses o wneud cais am gyllid, ond roeddent wedi dangos cydnerthedd a chadernid. Roedd eraill yn hyderus ond roeddent wedi cymryd amser i ymgyfarwyddo â'r dull gweithredu o'r 'gwaelod i fyny'. Mae hyn yn awgrymu bod cwmpas am fwy o gyfathrebu rhyngddynt a bod angen cymorth pellach er mwyn darparu hyfforddiant a gwnedu gwaith rhwydweithio er mwyn i bawb deimlo eu bod yn cael eu hintegreiddio'n llawn.

Roedd yn ddull gweithredu cyffrous ac arloesol, ac yn un heriol weithiau, tuag at weinyddu cynllun grant. Y gobaith yw y bydd eraill yn y dyfodol yn ailadrodd y ffocws ar gydgynhyrchu ac ar wrando go iawn.

Mae Pobl yn Gyntaf Sir Benfro, Pobl yn Gyntaf Sir Gaerfyrddin ac Ein Llais Ein Dewis yn arloeswyr gyda'r dull gweithredu hwn, ac mae hyn yn amlwg yn y ffordd y maent yn hyrwyddo'r Tîm Delfrydol, a oedd yn allweddol i effeithiolrwydd dull gweithredu LDIF.

Gydag anogaeth partneriaid eraill a PAVS yn gweinyddu'r gronfa, arweiniodd hyn at fodel cydgynhyrchu cadarn ac effeithiol.

Yn ogystal, roedd sefydliadau eraill a oedd yn adolygu eu rhaglenni cyllido, gan gynnwys y Loteri Cenedlaethol, wedi dangos diddordeb yn LDIF.  Estynnodd Fforwm Cyllidwyr Cymru wahoddiad i'r bartneriaeth i wneud cyflwyniad am ei dull gweithredu gwahanol tuag at gynorthwyo prosiectau ar gyfer pobl sydd ag anableddau dysgu.

Roedd **Sefydliad Rhagoriaeth Gofal Cymdeithasol (SCIE)** wedi cynnwys LDIF fel astudiaeth achos ar ei wefan, gan amlygu pwysigrwydd cydgynhyrchu.  Mae'r sefydliad hwn yn 'gwella bywydau pobl o bob oed trwy gydgynhyrchu, rhannu, a chynorthwyo'r defnydd o'r wybodaeth a'r dystiolaeth orau sydd ar gael am yr hyn sy'n gweithio ym maes gwaith cymdeithasol a gofal cymdeithasol'.  Mae'r Gronfa Arloesi Anableddau Dysgu yn cynnig cyfleoedd i bobl sydd ag anableddau dysgu | SCIE

**Dysgu – myfyrdod olaf am ddull gweithredu LDIF**

o Hygyrch:  roedd ffurf Hawdd i'w Ddeall dwyieithog wedi sicrhau bod y broses yn gyfartal i bawb.  Bu buddiolwyr posibl yn ymwneud â'r gwaith o ysgrifennu'r ceisiadau a bu aelodau'r Panel yn sgorio'r ceisiadau ac yn gwneud penderfyniadau gwybodus.

o Capasiti a hyder:  Sicrhaodd aelodau'r panel brofiad pellach a mwy o gapasiti trwy gymryd cyfrifoldeb dros eu penderfyniadau.  Llwyddodd yr ymgeiswyr i feithrin eu hyder wrth fynegi eu syniadau a'u cyflwyno i'r Panel, yna aethant ymlaen i redeg y prosiectau a ddewisont yn llwyddiannus.

Cryfderau a gwendidau:  Dangosodd rai aelodau Panel gryfder mewn maes penodol a fu o gymorth wrth wneud penderfyniadau ee  gwybodaeth am TG ar gyfer cais am wefan.

o Newid meddylfryd:  Dysgodd y gweinyddwyr pryd i gynnig cymorth a phryd i gymryd cam yn ôl, er mwyn neilltuo mwy o amser am gydweithio go iawn a dysgu i rannu 'rheolaeth' o'r broses.

o Dilysrwydd:  y ffordd orau oedd sicrhau bod pobl sydd ag anableddau dysgu yn gwneud ceisiadau, ond roedd hon yn ffordd wahanol o weithio i rai o'r cyrff mwy soffistigedig sy'n cyflogi Swyddogion Codi Arian.  Roedd proses LDIF yn gofyn am ddisgrifiadau prosiect cryno;  bu ffurf Hawdd i'w Ddeall yn ddelfrydol.

o Cynaliadwy:  Roedd y broses hon o ddyfarnu grantiau yn sicrhau bod yr holl wasanaethau a'r gweithgareddau a ariannwyd wedi cael eu nodi fel rhai yr oedd eu hangen ar bobl sydd ag anableddau dysgu.  Roedd yn rhaid i brosiectau llwyddiannus ddangos sut yr oeddent yn gysylltiedig â'r Siarter.

o Ychwanegu Gwerth:  roedd y prosiect wedi codi ymwybyddiaeth, a pheri i bobl feddwl yn wahanol, hyd yn oed y rhai yr oedd ganddynt brofiad o weithio gyda phobl sydd ag anableddau dysgu a/neu bobl niwrowahanol.  Roedd yn ymwneud â'r cyflawniadau yn hytrach na'r sialensiau – un o'r canlyniadau mwyaf gwerthfawr oll.

## Cydweithio

'Mae'r dull newydd hwn, sy'n cael ei hwyluso gan PAVS a PPF, gyda chefnogaeth Cronfa Gofal Integredig Llywodraeth Cymru, wedi sicrhau canlyniadau gwell – i'r rhai sy'n ymwneud ag asesu'r ceisiadau, y

sefydliadau sy'n gwneud cais am gyllid a'r bobl sy'n profi'r gweithgareddau a ddarperir gan y cyllid.

Roedd sicrhau cyfranogiad ystyrlon pobl ag anableddau dysgu a/neu bobl niwrowahanol wrth asesu ceisiadau ar gyfer y LDIF, yn golygu ailfeddwl am y dull gweithredu a gwneud pethau'n wahanol.

Ar ôl newid pethau er gwell ar gyfer eu hunain, credaf bod gan Becyn Cymorth Arloesi Anableddau Dysgu y potensial i helpu nifer yn fwy o sefydliadau sy'n darparu gofal a chymorth i gynnwys eu haelodau mewn ffordd debyg.

**Kim Neyland**
**Rheolwr Partneriaeth Strategol,**
**Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru**


## Cydnabyddiaeth

**Diolch i bawb a fu'n gysylltiedig â hwn:**

**Pobl yn Gyntaf Sir Benfro**

**Pobl yn Gyntaf Sir Gaerfyrddin**

**Ein Llais Ein Dewis**

**Y Tîm Delfrydol**

**Partneriaeth Rhanbarthol Gwella Bywydau**

**Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru**

**Llywodraeth Cymru am y cyllid**

**Barod CIC ar gyfer cyfieithiad Hawdd ei Ddeall**

**Llinos Jones ar gyfer cyfieithiad Cymraeg**

**Lluniwyd Pecyn Cymorth Cronfa Arloesi Anableddau Dysgu gan Caroline Marmara ar ran PAVS gyda mewnbwn partneriaid.**